



Little Ringed Plover and chick © Steve Phillips

Little Ringed Plovers are a fairly recent breeding bird to the UK. The early colonisers were always found on reservoir banks or shingle areas on working gravel pits. This is still the case over the majority of the UK although artificially created and managed areas now also exist on many nature reserves.

The Little Ringed Plover is still regarded as a rare breeding wader in the UK. The bird was first seen in the Tywi Valley in 1984 near the Dinefwr ponds. A recent survey by The British Trust for Ornithology found that 7% of the total UK population were found on the Tywi and its tributaries, the Cothi and the Bran.

## Identification

A small plover, similar to the Ringed Plover, with a distinctive black and white head pattern. The Little Ringed Plover has pale legs and a black beak. When seen flying, its wings are plain brown without the white wing bar that Ringed Plovers have.

## Ecology

What makes the birds on the Tywi unique amongst the UK population is that they breed on the shingle banks found prolifically in the Tywi valley, rather than on reservoirs and gravel pits. These shingle banks are now considered to be the more natural habitat of this species. The preference of working gravel pits suggests they need their shingle to be free of vegetation early in the nesting cycle. This occurs naturally on the Tywi where gravel is constantly moved throughout the year.

Little Ringed Plovers arrive in the UK in March to breed and leave again by the end of August. They deposit their eggs in a small hollow (called a 'scrape') that they create on the bare shingle where the birds and their eggs are well camouflaged. The birds will lay repeat clutches but the fledging success tends to be reduced on these occasions.

Although the Little Ringed Plover on the Tywi appear to be doing reasonably well there are considerable threats to them. The extraction of gravel from the river bed can be very harmful to the birds if carried out during their breeding season. Grazing cattle on the valley can cause damage when they move over the shingle banks to drink from the river. Walkers and fishermen on the river banks can also have a detrimental effect on the bird's success and can cause the failure of a nesting attempt. Another problem, beyond our control is the variable levels of the water in early Spring that can wash eggs away.

## Management Advice to Farmers and Landowners

- If livestock are moving over shingle banks in order to drink from the River Tywi, then fencing off drinking areas during the Little Ringed Plover's breeding season i.e. March to August, could help the birds hatch more eggs.
- If livestock are not dependant upon the River for drinking water, fencing off shingle banks from stock using permanent or electric fencing will decrease disturbance to nesting Little Ringed Plovers and reduce the risk of eggs being trampled.
- Raising awareness of the existence of these birds to tenant farmers and anglers using farmland adjacent to the Tywi will ensure that the minimum of disturbance and damage takes place.

## Advice to Anglers

- Please be aware that Little Ringed Plovers may be breeding on the shingle banks where fishing takes place. It would be advisable to walk along the water's edge instead of walking across the shingle where there is a risk of stepping on their eggs and disturbing the birds.

---

Further information can be obtained from Anna Hobbs, Landscape and Biodiversity Officer for the Tywi Afon yr Oesoedd project (01558 824271 or [post@tywiafonyroesoedd.org.uk](mailto:post@tywiafonyroesoedd.org.uk)) or by contacting Isabel Macho, Carmarthenshire Biodiversity Officer (01267 224653 or [IMacho@carmarthenshire.gov.uk](mailto:IMacho@carmarthenshire.gov.uk))



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



Menter Bro Dinefwr



YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL  
THE NATIONAL TRUST



Cwtiad Torchog Lleiaf a chyw © Steve Phillips

Dim ond yn gymharol ddiweddar y mae Cwtiaid Torchog Lleiaf wedi dechrau magu ym Mhrydain. Nythu ar lannau cronfeydd neu ar lecynnau graeanog mewn pyllau graean oedd yn cael eu gweithio a wnâi'r adar cyntaf i fagu ym Mhrydain. A dyna'r drefn o hyd dros y rhan fwyaf o Brydain, er bod bellach nifer o lecynnau wedi eu creu neu'n cael eu rheoli ar eu cyfer ar lawer o warchodfeydd natur.

Ystyrir o hyd fod y Cwtiad Torchog Lleiaf yn aderyn magu prin ym Mhrydain. Yn 1984 y gwelwyd yr aderyn am y tro cyntaf yn Nyffryn Tywi a hynny ger pyllau Dinefwr. Yn ôl arolwg yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yr oedd 7% o gyfanswm poblogaeth Prydain yn byw ar lannau Afon Tywi, a'i hisafonydd, sef Afon Cothi a Bran.

## Nodweddion Adnabod

Mae'n gwtiad bychan sy'n debyg iawn i'r Cwtiad Torchog, ac sydd â phatrwm du a gwyn amlwg ar y pen. Mae gan y Cwtiad Torchog Lleiaf goesau golau eu lliw a phig ddu. Pan welir Cwtiad Torchog Lleiaf yn hedfan mae'r adenydd yn frown heb ddim gwyn fel sy'n nodweddu'r Cwtiad Torchog.

## Ecoleg

Yr hyn sy'n gwneud adar Dyffryn Tywi yn unigryw ymysg poblogaeth Prydain yw eu bod yn magu ar dorlannau graeanog sydd mor gyffredin yn Nyffryn Tywi, yn hytrach nag ar lannau cronfeydd ac mewn pyllau graean. Bellach ystyrir taw torlannau graeanog yw cynefin naturiol y rhywogaeth hon. Mae hoffter Cwtiaid Torchog Lleiaf o byllau graean sy'n cael eu gweithio yn awgrymu bod angen i'r graean fod heb lystyfiant yn gynnar yn y cylch nythu. Digwydd hyn yn naturiol ar afon Tywi lle mae'r graean yn cael ei symud yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

Daw Cwtiaid Torchog Lleiaf i Brydain ym mis Mawrth i fagu, gan adael erbyn diwedd mis Awst. Maent yn dodwy eu hwyau mewn pant bychan a grafwyd ganddynt yn y graean, lle mae cuddliw yr adar a'r wyau yn golygu eu bod yn anodd eu gweld. Mae'r adar yn dodwy ail eisteddiad ond mae'r ail eisteddiad yn tueddu i fod yn llai llwyddiannus.

Er ei bod yn ymddangos bod Cwtiaid Torchog Lleiaf wedi ymsefydlu'n weddol gadarn yn y cyffiniau, mae bygythiadau sylweddol ar bob llaw. Mae codi graean o wely'r afon yn gallu bod yn andwyol i'r adar hyn os gwneir hynny yn ystod eu tymor magu. Mae gwartheg sy'n pori yn y caeau cyfagos yn gallu bod yn ddinistriol wrth iddynt symud dros y torlannau graeanog i gyrraedd yr afon er mwyn gallu yfed dŵr yno. Hefyd mae cerddwyr a physgotwyr ar y torlannau yn gallu tarfu ar yr adar gan achosi iddynt roi'r gorau i nythu a magu yno. Problem arall, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, yw bod uchder yr afon yn gallu newid gryn dipyn ar ddechrau'r Gwanwyn ac yn sgil hynny bod llif yn gallu ysgubo'r nythod ymaith.

## Cyngor ynghylch Rheolaeth i Ffermwyr a Pherchenogion Tir

- Os yw da yn cael symud dros y torlannau graeanog er mwyn cyrraedd at Afon Tywi, byddai gosod ffensys er mwyn cyfyngu'r da i lecynnau yfed yn ystod y tymor magu, hynny yw o fis Mawrth tan fis Awst, yn gallu peri llai o golledion.
- Os nad oes angen i dda gyrraedd yr afon i gael dŵr yfed, gellid gosod ffensys (boed yn barhaol neu ar ffurf ffens drydan) er mwyn atal da rhag cyrraedd y torlannau graeanog, gan beri bod llai o darfu ar y cwtiaid a lleihau'r risg fod da yn damsang ar wyau.
- Bydd cynyddu ymwybyddiaeth ffermwyr a physgotwyr o bresenoldeb yr adar hyn yn sicrhau bod cyn lleied o darfu a difrodi â phosibl.

## Cyngor i Bysgotwyr

- Mae angen rhoi ar ddeall i bysgotwyr y gallai Cwtiaid Torchog Lleiaf fod yn magu ar y torlannau graeanog lle maent yn pysgota. Y cyngor yw iddynt gerdded ar hyd ymyl y dŵr yn hytrach na cherdded ar draws y graean lle mae perygl y gallent ddamsang ar wyau a tharfu ar yr adar.

---

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Anna Hobbs, Swyddog Tirwedd a Bioamrywiaeth ar gyfer Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd (01558 824271 neu [post@tywiafonyroesoedd.org.uk](mailto:post@tywiafonyroesoedd.org.uk)) neu gan Isabel Macho, Swyddog Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin (01267 224653 neu [IMacho@sirgar.gov.uk](mailto:IMacho@sirgar.gov.uk))



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



Menter Bro Dinefwr



YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL  
THE NATIONAL TRUST